



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) 2002, OS 2002 Rhif 2304 (W.229)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ailadrodd y cyfyngiadau dros dro ar symud anifeiliaid a oedd yn Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Interim) 2002 gyda diwygiadau.

Rheol Sefydlog 11.5

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn hwn gan yr ymddengys ei fod wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol yn y ffyrdd canlynol:

Erthygl 4

Nid yw paragraff (b) yn eglur. Gallai olygu naill ai na ddylai unrhyw un gael mochyn o ladd-dy o dan unrhyw amgylchiadau, neu y gellid cael mochyn heb fod angen trwydded.

Erthygl 6(4)

Mae hon yn cyfeirio at "awdurdod a gyhoeddwyd at ddiben gwneud dau safle neu fwy yn grŵp meddiannaeth unigol o dan erthygl 3(2)(b)(vi)," . Nid yw erthygl 3(2)(b)(vi) yn ymwneud â gwneud dau safle neu fwy yn grŵp meddiannaeth unigol, fodd bynnag. Nid yw ond yn darparu i roi awdurdod i anifail gael ei symud rhwng safleoedd mewn grŵp meddiannaeth unigol.

Erthygl 9(1)

Noda'r erthygl hon mewn perthynas â'r gofynion i gael trwydded ac ati:

"os methir â chydymffurfio â'r gofynion hynny bydd y swyddog neu'r arolygydd yn peri i'r gofynion hynny gael eu cyflawni."

Fodd bynnag, ni noda ai dyletswydd ynteu bŵer goddefol y bwriedir ei rhoi ar swyddogion ac arolygwyr.

Testun Cymraeg

Mae'r pwyntiau a wnaed yn gymwys yn yr un modd i'r testun Cymraeg.

Diwygio

Deallir y bwriedir diwygio'r gorchymyn, ac felly dylid manteisio ar y cyfle hwn i gywiro'r materion uchod.

Sylwadau

Enwi pwerau

Credir na ddylid bod wedi cynnwys adran 87(2) gan yr ymddengys na wnaed unrhyw ddarpariaeth o dan y pŵer hwnnw. Hy. er bod y gorchymyn yn cynnwys ei ddiffiniad ei hun o anifeiliaid nid yw'n "estyn" y diffiniad yn y Ddeddf, fel y mae adran 87(2) yn rhoi grym iddo ei wneud.

Cywiriadau argraffu

Tynnwyd rhai pwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb at sylw'r rhai sy'n gyfrifol am brosesu'r gorchymyn hwn er mwyn iddynt gael eu cywiro yn y fersiwn cyhoeddedig. Y materion i'w nodi yn arbennig yw'r diffiniad o "uned reoli" yn y testun Cymraeg (nid oes diffiniad cyfatebol yn y testun Saesneg ac mae awgrym ei fod yn diffinio term nas defnyddir yn ôl pob golwg yn y gorchymyn) a geiriad erthygl 3(2)(b)(xi)(aa) yn y testun Cymraeg yr ymddengys iddo godi am fod y gair "brought" yn y ddarpariaeth gyfatebol yn y testun Saesneg wedi'i gamddarllen fel "bought".

Mick Bates AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

15 Hydref 2002